



Llamhidyddion 8 Awst 2013, Porth Llechog, Ynys Môn.

Ilun: Allan Brandon

Pysgod duon yw'r enw ar lafar yn Ardudwy am y creaduriaid hyn.

PORpoise yw hwn yn Saesneg. Trowch i dudalen 2 am hanes PORbeagle. Be wnewch chi o'r tebygrwydd rhwng y ddau enw?

Catoptria furcatellus: gwyfyn bach y mynyddoedd wedi troi fyny eto ar ôl sbel

Ar fy ffordd i fyny Elidir Fach o'n i, yn mwynhau'r golygfeydd a dim ond yn hanner canolbwyntio ar y llystyfiant o dan fy nhraed. Carped creiglus esmwyth lle mae'r tir yn wastad, wedyn cymysgedd tameidiog o greiglus, llus, grug, llusen goch a gweiriau lle mae'r allt yn dechrau bod yn fwy serth. Ychydig pellach i fyny a dyna'r tir mynydd go iawn, cerrig llwyd ar chwâl neu'n tyrru efo'u gilydd rhwng yr ynysoedd gwyrddfelyn. Yn sydyn o'n i'n canolbwyntio. Roedd yna newid sylweddol yn y borfa o fy nghwmpas. Glaswellt melys llawn teim a fioledau, dylanwad amlwg rhyw gerrig basig wedi eu cuddio dan y croen mwsoglog. Ac wedyn dyma fi, i lawr ar fy mhedwar, haul cynnes ar fy nghefn, iasau i lawr fy nghefn ar yr un pryd, efo'r teimlad cyfarwydd o ddarganfod: edafeddog y mynydd *Antennaria dioica*, planhigyn dirodres ond pert, yn blodeuo fel petai'r byd ar ben. Planhigyn eithaf prin y dyddiau 'yma. Wel, am dro da!

Symud ymlaen tair blynedd i haf 2013 ac yn ystod y tywydd crasboeth penderfynais fynd yn ôl i weld yr Edafeddog y Mynydd. Meddwl o'n i, efallai byddai'n cael hyd i ragor o rywogaethau blodau annisgwyl yn y clwt bach o gynefin arbennig. Felly es i allan mewn shorts a chrys T, â camera - dim mwy. Erbyn i mi gyrraedd yr allt o'n i'n chwyslyd ac wedyn wnes i dreulio cwpl o oriau yn chwilio am y lle cywir, heb lwyddiant ac yn teimlo bach yn ddigalon. Wnes i stopio i dynnu llun gwyfyn tortrics bach hardd, a dyma sylwi y sydyn ar wyfyn bach arall yn hedfan heibio jyst uwchben y ddaear. O'r cychwyn cyntaf meddyliais '*Catoptria*' oedd hwn, efo ei adenydd hir brown castan â streipen wen gul trwy'r canol. Ond oedd rywbeth yn bod - o'n i'n ddigon cyfarwydd efo *Catoptria margaritella* i sylweddoli bod angen o leiaf tynnu llun i fod yn siŵr. Ond mae'n haws deud na gwneud; sawl tro gwrthododd glanio'n gyfleus, bob tro'n hanner cuddio ac wedyn hedfan eto. Hedfan yr un fath a *jack snipe* yr oedd ot, yn gyflym, heb fynd yn bell ac yna diflannu i blih y borfa.

Adeg prysur y flwyddyn oedd hyn, ac mi aeth nifer o ddyddiau heibio erbyn i mi fynd trwy'r lluniau yn y camera. Bron ar unwaith sylweddolais beth o'n i wedi ffeindio: *Catoptria furcatellus* Northern Grass-veneer. A dymaddipyn o'i hanes: '*Catoptria furcatellus* Zett., one of the two British mountain species was found on Snowdon in 1886 by J. W. Ellis and by the late H. W. Daltry in the 1930s in June and July. It could occur in suitable places in the higher parts of the Welsh mountains.' meddai H.N. Michaelis, y gwyfynwr o flaen ei oes yng Nghymru. A dyna ni, tri chwarter canrif yn ôl neu fwy, efo cofnod newydd sbon yn Eryri. Rhywogaeth y mynyddoedd go-iawn yw *C.furcatellus*, ac yn dal yma er gwaetha'r newidiadau yn y byd amaeth ac yn yr hinsawdd.



This species seems to be restricted in these Islands to the tops of mountains, where grass is growing, and to the higher grassy slopes. "When close to the hill-top I [rhyw Mrs Frazer] found a Crambus [enw'r 'teulu' yw hwn] flying, one that i had never seen before; it was entirely confined to the summit of the hill and to the ground sloping down, perhaps twenty-five or thirty feet from the top. There were several rocky points, and immediately below and surrounding these, dry springy turf, very short grass, and tufts of mountain blaeberry. The moth took quick short flights, and invariably settled on the ground, never once on the grass. Most likely this habit of alighting on the ground is for the purpose of concealment; at rest on the peaty brown soil, with little fragments of the dry whitened herbage of the past season scattered about, C. furcatellus was almost invisible. It was not inclined to rise often on the wing unless disturbed." This was on a Perthshire mountain... THE LEPIDOPTERA OF THE BRITISH ISLANDS: CHARLES G. BARRETT, F.E.S. VOL. X. HETEROCERA PYRALIDINA—TORTRICINA 1905

John Harold

[Mae John Harold yn Swyddog Bioamrywiaeth efo Cyngor Gwynedd]

MWY NA BWLETIN Mae Bwletin Llên Natur yn mynd yn gynyddol aml-ddimension. Ar yr wyneb, 4 wyneb-ddalen sydd i bob rhifyn ond mae yna ddrysau yn arwain ohono trwy'r e-labyrinth i bob man. Mae pob gair sydd mewn print glas yn arwain i fwy o wybodaeth am y pwnc dan sylw, naill ai mewn rhifynnau eraill, neu mewn erthyglau ar ein gwefan, neu mewn gwefannau eraill. Arloesol yn y Gymraeg mewn cylchgrawn amgylcheddol?... rydym yn meddwl ei fod o!

Weekly Mail 14 Medi 1907

SHARKS IN CARDIGAN BAY TWO CAUGHT IN THE NETS BY ST DOGMAELS FISHERMEN. Some years ago the herring fishery of Cardigan Bay was one of the staple industries of St. Dogmael's during the salmon close time. Of late years, however, this has failed, but on Tuesday night shoals of herrings again suddenly appeared in the bay, just outside the estuary of the Teifi, and five mazes (2,500) fish were caught. On Wednesday morning [11 Medi] eight mazes (4,000) fish were caught, and, strange to say, the herrings were followed by a number of bottle-nose sharks, two being captured in the nets. One measured three feet in length, and the other was much larger.

Sgwn i beth yw bottle nosed shark?

Codwyd y cofnod hwn trwy [wasanaeth chwilio](#) ar lein y Llyrgeil Genedlaethol bottle nosed shark = [Lamna nasus](#)

Lamna [G] = a shark, voracious fish.

nasus [L] = nose - this shark has a prominent nose.

Enwau eraill Saesneg:

porbeagle

bottlenosed shark

Beaumaris shark (by Thomas Pennant)

mackerel shark

Yn Gymraeg:

corgi môr

morgi mawr

morgi trwynog

Yn Llydaweg: soner = un a wna swm, cerddor.

Sion Roberts

Gwleidyddiaeth y tywydd

Dyma'r pennawd a gafwyd ar un papur dyddiol poblogaidd yn y gogledd dydd Llun yr Eisteddfod eleni. Do mi gafwyd fflach-lifogydd dros y



penwythnos ond rhagolygon "swyddogol" da iawn ar gyfer gweddill wythnos Eisteddfod Dinbych a'r Fro. Ond doedd hynny ddim yn ddigon da i ohebydd y papur. Roedd ymwelwyr yr Eisteddfod eleni yn wynebu cenllifau a curlaw ffyrnig drwy'r wythnos. Wel chi Eisteddfodwyr, a gadwoch chi'ch traed yn sych a'ch pyrms yn eu lle? Do? Wel beth felly a gymhellodd y papur i ddarogan y fath dywydd anghywir meddech chi? 'Mond gofyn.



Gwrachen gam

Mae yna lecyn creigiog ar ben Twtil, Caernarfon sydd yn fan chwarae traddodiadol i'r cofis. "Grachan gam" i'w ei enw ar lafar heddiw - tybed beth yw tarddiad y fath enw? Crachan? (scab) - posib - y graith ar y graig efallai? Gwrachen? (y pysgodyn, wrasse, loach). Go brin. Ond na, dyma holi T. Meirion Hughes, bardd ac un o wybodusion tref Caernarfon, a chael mai gwrach sydd yma yn ôl chwedl beth bynnag, a bod rhywun rhywdro wedi trio'i saethu, gan adael olion y bwled yn y graig.

Pen Twtil a'r paent eto - uwch hen Gaer,

Gwrachen Gam a'i hogo;


Ni theimlaf ing wrth ddringo

Esgyn i fryn yn y fro.

Oes rhywun yn gwybod pwy oedd y wrach, a pham y saethwyd ati?

Pla lindys ...mwy

Wedi darllen gyda diddordeb yr erthygl yn rhifyn diweddaraf Llên Natur, ynglŷn â'r Gwyfyn [Corn Carw](#) a'r gwyfanod [Bwletin 65, tudalen 3]. Mae 'na ddilyniant go ddiddorol i be welais i ym Mis Mai 2007 ar lethrau Drosogl, sef pla o lindys y gwyfyn hwn. Rhyw 10 diwrnod wedyn, roeddwn i'n digwydd mynd am dro gyda'r nos i gopa Moel Faban ac yn edrych draw tua'r un llecyn. Rhyw awr cyn y machlud, daeth haid o wylanod (400-500 neu fwy) o gyfeiriad y môr: o Ynys Seiriol, digon posib. Glaniodd y gwyfanod ar y llethrau rhwng Drosogl a Gyrn Wigau, gan ddechrau bwydo yn y fan lle roeddwn i wedi gweld y lindys bythefnos yn gynt. Mi welais yr un peth yn digwydd ar o leiaf dwy noson arall yn ystod y diwrnodau nesaf, ac roeddwn i'n meddwl ar y pryd efallai mai gwledd o lindys oedd wedi tynnu'r gwyfanod draw i'r fan hon. Mae'r erthygl yn cefnogi'r syniad hwn, ac mae'n debyg mai bron 80 mlynedd ar ôl cyhoeddi'r erthygl, mae gwyfanod Ynys Seiriol yn dal ar eu hennill



mewn blwyddyn dda ar gyfer Gwyfynod Corn Carw. Dyma gyfanswm blynyddol y gwyfynod corn carw a gefais [DB] yn y trap mewn gwahanol fannau yng Nghymru (yr ardd ac

Abergwyngregyn gan mwyaf) ers 1996. Sylwch y cynnydd yn 2007 (blwyddyn pla JB a blwyddyn cynhesaf erioed yn fyd eang gyda llaw), a llwyddiant ysgubol y gwyfyn y flwyddyn ganlynol, yn 2008.

The Antler Moth caterpillar invades upland areas in July to August on a fairly regular basis, about every 9 years. The last major invasion was in 2008 when 30,000 million caterpillars hatched on the upland moors of Cumbria around Glenridding, Patterdale, Angle Tarn, Helvellyn and Skiddaw....

ON Ebst gan Wil Williams i Steve Roddick: *On 28 May 2010, we went to that area looking for Dottrel. I can remember seeing tens if not hundreds of Black Backed? gulls on the ground, presumably feeding on something. I would guess it was between Gyrn Wigau and Foel Ganol. We went as far as Foel Grach - to the refuge - then back to Aber. Even though I took some photos, unfortunately I did not take any of the gulls- probably because they were too far away. What do you remember of the evening? Roedd 2010 yn flwyddn dda i'r corn carw hefyd (weler graff uchod).*

Penbyliaid er gwaetha popeth

Rhostryfan 12 Awst 2013: Pentwr o benbyliaid llyffant yn parhau i fod yn y pwll - rhain wedi byw serch y gwanwyn hwyr ag oer ag yna yr wythnosoau tanbaid.

Olwen Evans

Cafodd penbyliaid eleni eu taro ddwywaith - eu rhewi gan heth Mawrth, a'u crasu gan wres Mehefin.

Ffenomenon reit drawiadol

Bore Sadwrn dwythfa (20/7/13) o'n i'n aros ym mhen Port y Cob am gerddwyr Cerddwn Ymlaen (a oedd yn cerdded o Penrhyn) a wnes i sylwi ar y cymylau'n hongian dros Foel Ysgyfarnogod/Y Rhinogydd fel lliain bwrdd. Mi oedd yn fy atgoffa o'r 'llai bwrdd' chwedl â'r brodorion



yn gorwedd dros y 'Table Mountain' uwchben Cape Town, De Affrica. Yn anffodus, dydy fy nghamra bach i ddim yn cyfleu'r ffenomenon yn iawn ond mi oedd yn reit drawiadol ar y pryd, ac ella y bydd y lluniau o ddiddordeb.

Llun a stori: Haf Meredydd

This is a tricky one. 20th July saw a High over N England, wind E, possibly ESE at Penrhyn. On 19th July Porthmadog was hottest place in UK with 31.4C. As [Haf] Meredydd says the cloud formation is similar to the table-cloth on Table Mountain, SA. I suspect a föehn is responsible. Although a High dominated, the air was not very dry during the past hot spell, the air was quite humid. So this humid air rising up the windward (E) side of Moel Ysgyfarnogod would give cloud as it cools and condenses. As it sinks on the leeward (W) side it compresses and warms up again, so the cloud evaporates. This would also explain the very high temperatures experienced around Porthmadog on the 19th, the föehn effect heating the air. Things did cool down a bit on the 20th, Porthmadog reached 28.0C making it the hottest place in Wales that day, so föehn still in place.

Huw Holland Jones

Mwy am y sglefrod

Dinas Dinlle 16 7 2013: I awel y môr heddiw - awydd mynd i nofio ond o



weld cymaint o sglefrod môr wedi eu golchi i fyny ar y traeth penderfynnu pedio. Cafodd y ferch ei phigo yn arwrth nofio trwyddynt wythnos dwythfa!! Y tywydd poeth ma [cofnod 18 Gorff 2013] yn gwneud imi feddwl am haf poeth 1976: cofio fel y bu pla o fuwch goch gota, a gwelais bentyrrau mawr -

miloedd - wedi marw o dan feinciau tua Prestatyn. Roedd digon i lenwi sawl rhaw dan.

Olwen Evans

Y sglefren lloerol (uchod) oedd y mwyaf niferus ar y traethau.

Haid anferth o'r fentyll tramor



IMMENSE SWARM OF BUTTEFLIES
A strange occurrence is reported from Wetzikon, Canton Zurich. On Saturday [14 Mehefin 1879] the

Commune was invaded by an immense swarm of butterflies a kilometre wide, and so long that the procession took two hours to pass. They were principally of the kind known in Switzerland as Distelfalter [mantell dramor Vanessa cardui], which feed on nettles and thistles. They flew from two to ten metres above the ground, and went off in a north-westerly direction.

Distel yw ysgallen yn yr Almaeneg, falter ydi gloyn byw

Mwy am ddaeargryn Waunfawr Bwletin 65

Cafwyd dau gyfeiriad arall yn syth, oddiwrth Steffan ab Owain, am y ddaeargryn dirgel hon (nad yw ar restr daeargrynfeydd y British Geological Society):

Dolgellau: Ysgydwad daeargryn: Brawychwyd trigolion y dref hon ychydig wedi 7 o'r gloch nos Fercher cyn y diweddaf [18 oedd y Mercher blaenorol, a diwrnod y daeargryn yn ol ffynonellau eraill] gan ysgydwad daeargryn; a mawr ydoedd y dyfalu ynghylch ei heffeithiau.


Baner ac Amserau Cymru, Ebrill 21, 1888

EARTHQUAKE IN NORTH WALES. About eight o'clock on Wednesday evening week [18 Ebrill 1888] severe shocks of earthquake were felt in several parts of North Wales. At the Baptist Chapel, Llangollen, service was proceeding, when the shock was distinctly felt and the walls and ground were seen to shake. Shocks were also felt at many of the residences in the valley, where the crockery and windows quivered in their places. A farmer residing at the Graig said that his farmstead shook so severely that he expected it to fall. Reports from Corwen, Cerrig-y-Drudion, and Vroncysyllte, near Llangollen, state that the shocks of earthquake on Wednesday night were severely felt, furniture having been moved in the dwelling-houses and crockery shaken from the shelves, creating considerable alarm. The vibrations lasted several seconds. A correspondent at Llangollen states that a clear shock of earthquake was felt there on Wednesday night by three persons in the same room, and that he has felt many similar shocks in South America....

North Wales Chronicle, April 21.1888

Cloc haul Belan a daeargryn 1903

"Daear Gryn 12m wedi 10 y boreu" meddai William Jones, Moelfre, Aberdaron ar y 19 Mehefin 1903 yn ei ddyddiadur. Dyma beth oedd gan y British Geological Society i ddweud am yr un ddaeargryn: "This was a Caernarvonshire earthquake. It occurred at 10h04m and had a magnitude of 4.9 ML. It was felt over a wide area including the Isle of Man". Roedd felly wyth munud o wahaniaeth rhwng y ddau gofnod, un amser lleol, un amser Greenwich.



Mae llun lfor Williams o gloc haul Belan Fort, Caernarfon, bron yn ddigon i gyfri am y gwahaniaeth yn amseriad daeargryn 19 Mehefin 1903 rhwng amseriad GMT y British Geological Society (10.12am) ac amseriad William Jones yn ol cloc ei

gegin gefn (10.04) yn Aberdaron - sef 7 munud. Dyddiad y cloc yw 1898 (pum mlynedd ynghynt)

Llymriaid...mwy



Roedd yna filoedd lawer o rhain yng Nghricieth - 10fed o Awst 2013

Llun a stori: Gwyn Williams

Mae'n amlwg fod llymriaid i'w cael ym Mhen Llyn drwy'r haf - felly o ble daeth y traddodiad o l'lymreita'

(pysgota llymriaid) ym mis Mai?

'Arwydd da fod Mecryll o gwmpas' meddai Tom Jones.

Mefys bach a mawr

Dyma hanes (yn y Llydaweg) gan Kristian Huguen am ddiwydiant mefys Plougastel (gorllewin Llydaw). Mae'r hanes yn arbennig gan iddi gychwyn gyda ffurfio'r croesiad gwreiddiol rhwng y fefysen wyllt (chwith yn y llun) a mefysen o America oedd ar y pryd yn wyn. Y croesiad hwn yw ein mefusen cyfarwydd heddiw. Clciwch yma am [fersiwn Cymraeg](#).



Daoust-hag ar sivi a zo bet ruz, bras ha saourus bepred ?

Anavezet en Europa a-bezh abaoe mare ar romaned, ar sivi gouez, sivi ar c'hoat (*Fragaria vesca*) zo bihan o ment ha c'hwezh-vat ganto. Drebet int hag implijet e oant bet evel traetoù ivez. Anv fragaria a zeu deus ar ger latin «fargare» a dalv c'hwezh pe frondus. Produet int bet da gentañ e bro C'hall e XIVvet kantved (12000 plant el liorz h Louvres e 1368 evit o perzhioù mezegel). E XVIvet kanved, e teuas eus bro Kanada, gant Jakez Karter, frouezhioù all, ruz ivez met brasoc'h ha rustoc'h (*Fragaria virginiana*). E XVIIIvet kantved, Amédée François Frézier, ijinour-brezel ha louzawour (Chambéry 1682 / Brest 1773) bet kaset e bro Chili gant Roue Loezh XIV evit spiañ difennoù spagnoleg, a zeuas en dro e 1714 gant 5 plant sivi gwenn, anvet «blanche du Chili» (*Fragaria chiloensis*). Kavet ha kemeret int bet e Concepción etre Valdivia ha Santiago. Profañ a rae 4 deus outo ha plantañ an hini diwezhañ el liorz dezhañ e Plougastel e-kichen Brest e Breizh. Met ne roent frouezh ebet, rak plantoù par eñ oa kaset gantañ nemetken daoust ma oa plantoù parez e bro Chili eveljust.

Dre kroaziadenn sivi gwenn bro Chili ha sivi ruz bro Virginie (*Fragaria chiloensis* / *Fragaria virginiana*) 'zo bet savet e Breizh ur sivienn nevez gant ment hini bro Chili ha blaz hini bro Virginie. He c'hwezh ananas a roas diwezhatoc'h an anv latin *Fragaria x ananassa* dezhi. Plougastel a zo chomet ul lec'h-produiñ sivi pouezus kenañ adalek 1750. Ur mirdi zo bet savet eno.

(Mod pe vod an anv «Frézier» zo liammet gant ar sivi («fraise» e galleg) : Julius de Berry, un hendad dezhañ, en doa kinniget d'ar Roue Charlez III-ar Simpl da dañva ur pladad sivi gouez e fin ur pred bras e Anvers e 916. Evit eñ trugarekaat, ar Roue a noblas anezhañ ha roas an anv «Fraise» dezhañ, anv deuet da vezañ «Frazer»

goude divroadur e familh e bro Saoz ha «Frézier» goude o zistro e bro Savoie e reter bro c'hall.)



Rhywbeth annisgwyl...

...rownd pob cornel! Dyma neges a dderbyniwyd gan y bardd David Greenslade yn ddiweddar:

Mae enwau creaduriaid o bob math wedi bod o ddirordeb i mi ers cryn amser ac yn 2009 cyhoeddais lyfr o'r enw [Zeus Amoeba](#). Ers hynny, wrth sylweddoli pa mor rhyfedd mae enwau ar glöynnod, yn dawel bach rydw i wedi bod yn darllen am rheina – yn arbennig llyfrau gan weinidogion yr eglwys yn Lloegr. Roedd dod ar draws llyfr Cymdeithas Edward Llwyd felly ([Gwyfynod, Gloynnod &c](#)) yn drysor pur i mi - a chymaint wi wedi mwynhau cymharu yr enwau (tra egsentrig a barddonol) yn y Saeneg ag enwau (heb fod yn llai barddonol) yn y Gymraeg. Ar gyfer Eisteddfod Llanelli 2014, rydw i wedi cymryd enwau glöynnod fel man cychwyn prosiect barddonol fy hun. Dwi'n gwiethio gyda'r artist [John Welson](#) <http://www.johnwelson.com/> ac rydym wedi dyfeisio gloynnod dychmygol fel alegoriau ysgafn torfol. Dyma un ohonynt [gyda phaentiad gan John Welson]...

Glöyn yr Heb yn Wybod



O wewyr esgor yr anghenfil,
rhithwyfyn yn y gwyll,
mae wyau gloywon yn chwysu'n hael,
yn glanio'n dawel, dywyll
ar bob un gwelltyn gwair,
a fesul lleng o lindys llu
mae'n sugno'r maeth i gyd
nes gorwel peryg welwn
a dyna dro ar fyd.

David Greenslade

Carem ddiolch am y cyfle i gael cipolwg ymlaen llaw ar gynnwys y prosiect cyffrous hwn (Gol.)

Nodyn personol gan y Golygydd a'i wraig Gill

Ar yr 20ed Awst 1971, dydd ein priodas yn Wantage, swydd Berkshire, cariodd Gill *bouquet* o bys pêr. Cofnod rhamantus (gobeithio) i Mrs. Brown - cofnod ffenolegol erbyn hyn i'w gŵr cwbl diramant! Roedd pys pêr yn eu blodau yn yr ardal honno y flwyddyn honno yn amlwg. (Mae nhw yn eu blodau ar 12 Awst eleni). Oes gennych chithau achlysur cofiadwy, llon neu leddf, ar ddyddiad arbennig i chi, sydd yn gofnod ffenolegol neu o dywydd arbennig?

Dyma gofnod arall o'r math hwn:

9 Mai 1918: Mewn cyfweiliad gyda William Owen o Ddyffryn Ardudwy ar y 21 Tachwedd 2010 ar raglen Dei Tomos, soniodd WO am ei fam Rhinogwen yn cael ei geni ar yr un diwrnod a Kyffin Williams pan oedd eira ar y Rhinogydd gerllaw - felly ei henw RHINO GWEN. Dyma gofnod felly bod eira (anhymhorol) ar y Rhinogydd ar 9 Mai 1918.